



Mesur Gwasttraff (Cymru) 2010

2010 mccc 8

Cynlluniau rheoli gwastraff safle

16 Ymgynghori

- (1) Cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan adran 12, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—
 - (a) Asiantaeth yr Amgylchedd;
 - (b) pob awdurdod lleol;
 - (c) unrhyw bersonau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau personau sy'n agored i fod yn ddarostyngedig i ddyletswyddau o dan y rheoliadau ac y mae Gweinidogion Cymru'n barnu eu bod yn briodol;
 - (d) unrhyw bersonau eraill y maent yn barnu eu bod yn briodol.
- (2) At ddibenion is-adran (1), mae ymgynghoriad sydd wedi ei wneud cyn pasio'r Mesur hwn yn cael effaith fel pe bai wedi ei wneud ar ôl ei basio.